**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

| | |
|---|---|
| **REPORT TO:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR** |
| **SUBJECT:** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR - DYDD IAU, 17 CHWEFROR 2022 DYDD IAU, 17 CHWEFROR 2022** |
| **REPORT OF:** | |

---

| | | |
|---|---|---|
| PRESENT: | J. HOLT (CADEIRYDD) | |
| | Councillors | M. Day (Deputy Chair)<br>P. Baldwin<br>D. Bevan<br>J. Collins<br>M. Cook<br>M. Cross<br>N. Daniels<br>D. Davies<br>G. A. Davies<br>G. L. Davies<br>P. Edwards<br>L. Elias<br>D. Hancock<br>K. Hayden<br>S. Healy<br>J. Hill<br>W. Hodgins<br>J. Mason<br>H. McCarthy<br>C. Meredith<br>J. Millard<br>M. Moore<br>J. C. Morgan<br>J. P. Morgan<br>L. Parsons<br>G. Paulsen<br>K. Pritchard<br>K. Rowson<br>T. Smith |

B. Summers
B. Thomas
G. Thomas
S. Thomas
H. Trollope
J. Wilkins
D. Wilkshire
B. Willis
L. Winnett

WITH: Rheolwr Gyfarwyddwr
Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg
Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol
Prif Swyddog Adnoddau
Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid
Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol
Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau
Pennaeth Datblygu Sefydliadol
Rheolwr Gwasanaeth - Cyfrifeg
Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **<u>CYDYMDEIMLAD</u>**<br><br>Mynegwyd cydymdeimlad gyda:<br><br>➢ Teulu y diweddar Paul Hopkins, cyn Gynghorydd a Maer Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.<br><br>Dangosodd aelodau a swyddogion eu parch gyda munud o dawelwch.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur fod hyn yn newyddion trist iawn am golled drist ei gydweithiwr, Paul. Dywedodd fod Paul yn sosialydd ymroddedig ac yn un o’r lladmeryddion gorau dros | |

| | | |
|---|---|---|
| | Dredegar a'r cymoedd ac y gwelir ei golled yn fawr. | |
| **No. 2** | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 3** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd T. Sharrem. | |
| **No. 4** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Adroddwyd y datganiadau buddiant dilynol:<br><br>**Eitem Rhif 7: Trefniadau Interim – Swydd Wag**<br><br>- Michelle Morris – Rheolwr Gyfarwyddwr<br>- Damien McCann – Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol<br>- Richard Crook – Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol<br>- Lynn Phillips – Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg<br>- Rhian Hayden – Prif Swyddog Adnoddau<br>- Bernadette Elias – Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid<br>- Andrea Jones – Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol<br><br>Yn dilyn cyngor a dderbyniwyd, cytunwyd y byddai'r swyddogion a enwir uchod yn gadael y cyfarfod tra cynhelir yr eitem hon o fusnes. | |
| **No. 5** | **<u>CAIS – CAIS I'R GYNGOR I GYWIRO ANGHYFIAWNDER CYDRADDOLDEB A DDIODDEFODD GWEITHWYR CYFLOGEDIG A GOLLODD MAS AR GYNLLUN CYDNABYDDIAETH ARIANNOL LLYWODRAETH CYMRU</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r cynnig uchod.<br><br>Dechreuodd Arweinydd y Grŵp Llafur drwy esbonio y cyflwynwyd y cynnig i ofyn i'r Cyngor gywiro anghyfiawnder cydraddoldeb a ddioddefodd gweithwyr a gollodd mas ar Gynllun Cydnabyddiaeth | |

Ariannol Llywodraeth Cymru ac i gydnabod a rhoi iawn am waith caled ac ymroddiad gweithwyr o Datblygu Gweithlu, Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar a Chwarae, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg sydd i gyd yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r gweithwyr diwyd ac ymroddedig hyn ymysg y rhai sydd ar y cyflog isaf, a buont yn gweithio o ddechrau a thrwy gydol y pandemig. Pan gafodd Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol Llywodraeth Cymru ei gyhoeddi gyntaf, nodwyd y cafodd y cohort hwn o weithwyr eu cynnwys i dderbyn y taliad ond y cafodd ei ddiwygio'n ddilynol i gynnwys y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yn unig. Daeth Arweinydd y Grŵp Llafur i ben drwy fynegi ei bryder fod hyn yn anghyfiawnder. Roedd y gweithwyr hyn yn aml iawn wedi gweithio ochr yn ochr gyda'u cydweithwyr mewn iechyd a gofal cymdeithasol a gofynnodd i'r Cyngor ystyried y cynnig a rhoi cydnabyddiaeth ariannol i'r gweithwyr hyn.

Dywedodd yr Aelod Gweithrediaeth Addysg fod ganddi lawer iawn o gydymdeimlad gyda'r staff hyn a gafodd eu dal yn y sefyllfa hon a theimlai ei bod yn anffodus fod Llywodraeth Cymru wedi newid paramedrau cymhwyster fel y gwnaeth. Mynegodd ei phryder fod gan y cynnig a gyflwynwyd y potensial i greu anghysonderau ar gyfer y gweithlu ar draws y Cyngor a'i fod yn debyg o hollti barn. O fewn ei phortffolio ei hun, er enghraifft, roedd cydweithwyr addysg wedi gweithio'n ddiflino i naill ai ddarparu'n uniongyrchol neu gefnogi gwasanaethau rheng flaen hanfodol drwy gydol y pandemig ac yn parhau i wneud hynny. Roedd hefyd yn cydnabod y cafodd y gwaith caled ac ymroddiad hwn ei ddangos mewn llawer o feysydd gwasanaeth eraill o'r sefydliad ac roedd yn bryderus y gallai gael effaith niweidiol ar staff yn y meysydd hynny pe byddai'r cynnig yn cael ei gario.

Ychwanegodd yr Aelod Gweithrediaeth ei bod yn sefyllfa anffodus a gafodd ei chreu gan Lywodraeth Cymru ac nad oedd yn sicr os oedd yn briodol i'r Cyngor ymyrryd ac er fod ganddi gydymdeimlad gwirioneddol gyda'r staff cysylltiedig, yn anffodus am y rhesymau a amlinellodd ni fedrai gefnogi'r cynnig.

Dywedodd Aelod Gweithrediaeth yr Amgylchedd fod ei sylwadau hyn ar drywydd tebyg i'r Aelod Gweithrediaeth Addysg. Er fod ganddi lawer iawn o gydymdeimlad gyda'r sefyllfa y cafodd y staff hyn eu rhoi ynddi, o'i safbwynt hi byddai'r effaith a'r neges y gallai hyn ei anfon i staff rheng flaen eraill a fu'n gweithio drwy gydol y

| | | |
|---|---|---|
| | pandemig o'r diwrnod cyntaf e.e. yn ei phortffolio hi, roedd casglwyr sbwriel wedi parhau i ddarparu'r gwasanaeth yn ddi-dor, bu iechyd yr amgylchedd ar y rheng flaen a hefyd felly ddatrysiadau tai, i enwi ond rhai. Am yr un rhesymau, roedd hefyd yn ei chael yn anodd i gefnogi'r cynnig.<br><br>Dywedodd Aelod ei fod yn deall sylwadau'r Aelodau Gweithrediaeth a chydnabu fod cydweithwyr eraill wedi gweithio ar y rheng flaen yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor yn awr gyfle i unioni'r camwedd a wnaed a dangos ei werthfawrogiad i staff (rhai ar y cyflog isaf) a fu'n gweithio ar y rheng flaen yn ystod y pandemig a galluogi gweithwyr allweddol i gyflawni eu swyddi.<br><br>Dechreuodd yr Aelod Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol fod y polisi hwn gan Lywodraeth Cymru yn un cynhennus iawn ond cyfeiriodd at y ffeithiau:<br><br>- 17 Mawrth 2021 – roedd Vaughan Gething, Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y pryd, wedi gwneud datganiad y byddai staff iechyd a gofal cymdeithasol yn derbyn £735 i gydnabod eu hymdrechion yn ystod y pandemig.<br><br>- 24 Ebrill 2021 – cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar Gynllun Cydnabyddiaeth Ariannol Gofal Cymdeithasol ac ar y pryd roedd yr holl staff gwasanaethau cymdeithasol yn cynnwys Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg yn gymwys am y taliad. Cafodd y cohort hwn o staff ei gydnabod ddwywaith yn y polisi hwn.<br><br>- Mehefin 2021 – roedd Llywodraeth Cymru wedi diweddaru'r canllawiau gan ddweud nad oedd Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg bellach yn gymwys am y taliad. Roedd hyn er y rhoddwyd tystiolaeth i Lywodraeth Cymru y bu staff yn gweithio gyda theuluoedd a phlant drwy gydol y pandemig.<br><br>Cadarnhaodd yr Aelod Gweithrediaeth ei fod ef a'i gyd-swyddogion ar draws Gwent wedi codi eu pryderon gyda'r Gweinidog mewn cyfarfodydd ac roedd Arweinydd ac Aelodau'r Weithrediaeth hefyd wedi ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am newid y penderfyniad.<br><br>I gloi, dywedodd ei fod yn siomedig nad oedd Aelodau'r grwpiau | |

| | | |
|---|---|---|
| | gwrthbleidiol ar y pryd wedi cefnogi gweithredoedd y weinyddiaeth yn erbyn polisi cynhennus Llywodraeth Cymru.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur drwy ddweud y daethpwyd â’r cynnig i’r Cyngor oherwydd ei fod yn anghyfiawnder neilltuol. Roedd yn anghydweld gyda sylwadau’r Aelod Gweithrediaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a dywedodd y byddai Llywodraeth Cymru yn bennu lan yn gorfod talu i 200,000 aelod o staff fel rhan o’r cynllun a ‘i bod wedi rhoi cyllid caledi i’r Cyngor dros y ddwy flynedd ddiwethaf.<br><br>Aeth ymlaen drwy ddweud fod ei ffocws ar werthfawrogi cydweithwyr ym Mlaenau Gwent oedd wedi gweithio ar y rheng flaen heb frechiadau yn gofalu am blant. Roedd rhain ymhlith y staff ar y cyflog isel a aeth yr ail filltir yn gofalu am blant i alluogi gweithwyr allweddol i fynd i’r gwaith ac maent yn haeddu cael eu trin yr un fath â’u cydweithwyr yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Daeth i ben drwy gynnig cefnogi’r cynnig. Cafodd y cynnig hwn ei eilio.<br><br>Wedyn gofynnwyd am bleidlais wedi ei chofnodi.<br><br>**O blaid y cynnig –** Cynghorwyr P. Baldwin, D. Bevan, M. Cross, P. Edwards, L. Elias, K. Hayden, H. McCarthy, J. Millard, M. Moore, J. C. Morgan, L. Parsons, K. Pritchard, T. Smith, S. Thomas, H. Trollope, D. Wilkshire, B. Willis a L. Winnett.<br><br>**Yn erbyn y cynnig** – Cynghorwyr J. Collins, M. Cook, N. Daniels, D. Davies, G. A. Davies, G. L. Davies, M. Day, D. Hancock, S. Healy, J. Hill, W. Hodgins, J. Holt, J. Mason, C. Meredith, J. P. Morgan, G. Paulsen, K. Rowson, B. Summers, B. Thomas, G. Thomas, J. Wilkins.<br><br>**Felly <u>ni chafodd</u> y cynnig ei gario.**<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, nad yw’r cynnig a nodir uchod yn cael ei gefnogi. | |
| **No. 6** | **<u>CYLLIDEB REFENIW 2022/2023</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Dechreuodd y Cadeirydd drwy awgrymu, gan fod yr adroddiad wedi ei drafod yn flaenorol gan y Cydbwyllgor Craffu a hefyd y | |

| | | |
|---|---|---|
| | Pwyllgor Gweithrediaeth a bod Aelodau yn gyfarwydd gyda'i gynnwys, y dylid canolbwyntio sylw ar yr opsiynau a argymhellir, yn neilltuol paragraffau 3.1.7 a 3.1.8 ac wrth wneud hynny ni fyddai angen i'r Prif Swyddog Adnoddau felly roi crynodeb o'r adroddiad. Yn unol â'r traddodiad, gwahoddir Arweinydd y Cyngor i siarad gydag Arweinwyr y Grŵp Llafur a'r Grŵp Annibynnol Lleiafrifol i ddilyn.<br><br>Awgrymodd Arweinydd y Grŵp Llafur yn gryf y dylid ei drafod oherwydd mai hwn oedd adroddiad y gyllideb.<br><br>Dechreuodd Arweinydd y Cyngor drwy ddweud fod peth haeddiant yn awgrym y Cadeirydd ac nad oedd mewn unrhyw ffordd i ddileu unrhyw drafodaeth neu ddadl am y gyllideb oherwydd y caiff y materion allweddol eu crisialu o fewn yr 8 argymhelliad.<br><br>Mynegodd ei werthfawrogiad i'r holl swyddogion am eu hymdrechion i ddarparu rheolaeth gyllidebol gadarnhaol drwy gydol y flwyddyn ond yn diolchodd yn arbennig i Rhian Hayden, Gina Taylor a'u timau am eu gwaith a werthfawrogir yn fawr i sicrhau cynnal y lefelau uchel o reolaeth ariannol y daeth y Cyngor i'w ddisgwyl.<br><br>Aeth yr Arweinydd ymlaen drwy ddweud fod y materion allweddol yn ymwneud â 7 opsiwn argymhelliad a gynhwysir ym mharagraff 3 yr adroddiad a dywedodd bod y cyllid allanol cronnus gadarnhaol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yr oedd y Cyngor yn ddiolchgar tu hwnt amdano a chanlyniadau Strategaeth Pontio'r Bwlch yn golygu nad oedd yn rhaid i'r Cyngor ystyried neu drafod unrhyw doriadau i wasanaethau. Felly, ar yr amser priodol byddai'n cymeradwyo opsiynau 3.1.1 – 3.1.6 fel y'u cyflwynwyd. Roedd yn dda nodi ym mharagraff 3.1.6 bod y Cyngor mewn sefyllfa i roi cynnydd o £3.91m yn y gyllideb ysgolion, oedd yn gyfwerth â chynnydd o 8.4% ac roedd yn sicr y byddai penaethiaid ysgol, staff a chyrff llywodraethu ysgolion ar draws Blaenau Gwent yn croesawu hyn.<br><br>Cyfeiriodd yr Arweinydd at baragraff 3.1.7 a dywedodd gan roi ystyriaeth i'r hyn a gyflawnwyd Pontio'r Bwlch a nodir yn nhabl 5 – fod paragraffau 5.1.30 yn dangos fod gwarged cyllideb o £2.44m. Cynigiodd y dylai cyfran o'r cyllid hwn gael ei ddefnyddio i gefnogi cynnydd tâl yn ychwanegol at y 2% sydd yn y gyllideb yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canol gyda £950,000 yn cael ei drosglwyddo i gyllideb wrth gefn i helpu cefnogi cynnydd ar gyfer | |

2022/23 uwchben y dybiaeth o 2%. Roedd hyn yn reolaeth ariannol ddarbodus ac os oes unrhyw beth dros ben, gellid ei drosglwyddo yn ôl i'r gronfa wrth gefn.

Mae paragraff 3.1.7 yn argymell y dylid trosglwyddo gweddill y £2.44m yn dilyn y £950,000 i'r gyllideb wrth gefn h.y. £1.5m i'r gronfa wrth gefn cydnerthedd ariannol. Gwyddai Aelodau fod yr weinyddiaeth dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi gweithio'n galed i fynd i'r afael â chronfeydd ariannol wrth gefn y Cyngor, a gydnabyddid oedd yn wael, a theimlai y gwnaed hyn gyda chryn lwyddiant ac felly wedi gwella cydnerthedd ariannol y Cyngor yn sylweddol. Roedd yn ffaith ers 2017 y bu'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol ac wedi'u clustnodi ar y lefel uchaf ers 2012. Felly, ar yr achlysur hwn a gan gofio'r cynnydd enfawr a wnaed wrth gryfhau cronfeydd wrth gefn, dywedodd yr Arweinydd na fyddai'n argymell trosglwyddo'r gwarged hwn i gronfeydd wrth gefn ond trin yr argymhelliad ym mharagraffau 3.1.8 h.y, bod y gwarged wrth gefn yn cael ei ddefnyddio wrth osod treth gyngor 2022/23 Blaenau Gwent. Felly, ar yr amser priodol byddai'n argymell yn ffurfiol ar gyfer 2022/23 y byddai cynnydd o 0% yn elfen Blaenau Gwent o'r dreth gyngor a'i fod yn cael ei rewi yn y flwyddyn i ddod.

Soniodd Arweinydd y Cyngor ei bod yn amlwg fod elfennau eraill yn rhan o filiau treth gyngor h.y. praeseptau Heddlu a Chynghorau Tref/Cymuned nad oes gan y Cyngor unrhyw reolaeth drostynt. Fodd bynnag, cadarnhaodd y byddai'n argymell nad yw elfen Blaenau Gwent o'r dreth gyngor yn cynyddu. Byddai hyn yn galluogi'r Cyngor i gyflwyno cyllideb gytbwys a chyfreithiol heb ddefnyddio unrhyw gronfeydd wrth gefn a byddai hyn yn dal i adael gwarged bychan.

Cyfeiriodd Arweinydd y Grŵp Llafur at y sylw fod Pontio'r Bwlch yn llwyddiant a dywedodd ei bod yn amlwg, gyda'r cynnydd arfaethedig yn y dreth yn yr Isafswm Darpariaeth Refeniw, na theimlai fod hyn yn llwyddiant. Er ei fod yn falch iawn gyda'r cynnig am y dreth gyngor roedd yn anghytuno gyda sylwadau'r Arweinydd. Yn y flwyddyn flaenorol pan oedd y Grŵp Llafur wedi cynnig cynnydd o 0.7% yn lefel y dreth gyngor (oherwydd y teimlid mai dyna'r peth cywir yr adeg honno oherwydd yr anawsterau a gafodd y cyhoedd yn ystod y pandemig a phroblemau eraill), nad oedd Arweinydd y Cyngor wedi cefnogi'r cynnig a dywedodd, er fod ganddo gydymdeimlad gyda'r sylwadau, nad oedd y gyllideb yn cael ei gosod am un flwyddyn ond y caiff ei gosod gyda goblygiadau am flynyddoedd y dyfodol a'i bod yn iawn i fod yn

| | | |
|---|---|---|
| | bragmatig.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur, er nad oedd eisiau gwneud honiadau neu amheuon, gofynnodd os y cynigiwyd hyn oherwydd ei bod yn flwyddyn etholiad a dywedodd y teimlai ei fod yn sgam llwyr ond yn amlwg byddai'r Grŵp Llafur yn cynnig cynnydd o 0%.<br><br>Cadarnhaodd Arweinydd y Gyngor nad yw hyn yn gam ac nad oes llygad ar yr etholiad. Dywedodd mai cyfrifoldeb unrhyw weinyddiaeth yw sicrhau sylfaen ariannol cadarn a'i fod yn credu'n gryf fod gan y Cyngor sylfaen ariannol cadarn a gafodd ei greu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf a dywedodd eto bod cronfeydd wrth gefn cyffredinol ac wedi eu clustnodi ar y lefel uchaf ers 2012. Daeth ar adeg fel yr amlinellodd yn ei sylwadau cynharach gan ystyried safbwynt y cyhoedd ei bod yn flwyddyn anodd gyda chynnydd mewn costau a daethpwyd i'r farn fod y Cyngor mewn sefyllfa i beidio ychwanegu at y pwysau hyn o lefel treth gyngor ac i weithredu hyn yn gysurus. Aeth ymlaen drwy ddweud os teimlai fod angen unrhyw gynnydd yn y dreth gyngor na fyddai'n swil o wneud hynny oherwydd fod hyn am ddiogelu swyddi a gwasanaethau a gwneud yr hyn sydd orau er budd y cyhoedd. Nid oedd yn ymddiheuro a phwysleisiodd eto nad sgam oedd hyn. Cyflwynwyd cyllideb gall eleni a dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf a byddai hyn yn parhau. Daeth yr Arweinydd i ben drwy ddweud ei fod yn fwy na bodlon fod yr hyn yn cael ei wneud am y rhesymau hollol gywir er cyhoedd Blaenau Gwent ac yn wir ar gyfer y Cyngor hwn.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur, pe byddai'r Cyngor mewn sefyllfa mor wych, na fyddai'n gorfod defnyddio'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw eto a dywedodd fod y Cyngor eleni wedi derbyn y cynnydd mwyaf y gallai gofio mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru. Roedd pedair set flaenorol o gynnydd treth gyngor a gynigiwyd mewn blynyddoedd blaenorol yn amrywio mewn cynnydd canran ond eleni ei farn oedd y cafodd y lefelau treth gyngor eu rhewi eu gwneud yn llwyr ar gyfer dibenion etholiadol.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Cyngor iddo fod yn gynghorydd am 31 mlynedd a bod ganddo'r parch mwyaf at y cyhoedd ym Mlaenau Gwent. Roedd y gyllideb a gyflwynwyd yn gyllideb gall ac yn un y gellid ei fforddio gan na fyddai unrhyw effaith sylweddol ar sefyllfa cyllideb y Cyngor. Dywedodd eto nad oedd yn ymddiheuro am wneud hyn, nid oedd ganddo un llygad ar yr etholiad, mai hwn oedd yr amser cywir i wneud hynny ar yr adeg gywir. | |

Cytunodd Arweinydd y Grŵp Annibynnol Lleiafrifol gyda sylwadau Arweinydd y Grŵp Llafur a mynegodd ei siom nad yw'r adroddiad yn cael ei drafod. Cadarnhaodd y Cadeirydd nad oedd hyn yn mygu trafodaeth. Cafodd yr adroddiad ei drafod lawer gwaith gyda ffocws ar yr argymhellion ym mharagraffau 3.1.7 a 3.1.8 ac os oes gan Aelodau unrhyw gwestiynau, mae'r Prif Swyddog Adnoddau yn bresennol i ateb y cwestiynau hynny.

**Cyllideb Portffolio yr Amgylchedd:** Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur fod Portffolio yr Amgylchedd wedi gorwario eto gan bron £1m ac wedi bod yn gorwario'n gyson ym mhob chwarter o'r pum mlynedd ddiwethaf. Holodd yr Aelod Gweithrediaeth Amgylchedd pa gynlluniau sydd ganddo i fynd i'r afael â'r mater.

Cydnabu'r Aelod Gweithrediaeth y gorwariant a dywedodd y bu gorwariant traddodiadol am amrywiaeth o resymau. Fodd bynnag, yn y pen draw mae angen unioni'r gyllideb yn cynnwys archwilio sut y caiff y gyllideb ei dyrannu yn y lle cyntaf h.y. a oedd yn gyllideb wir a theg ac os caiff ei hailethol eleni, mae hyn yn rhywbeth y byddai dymuno canolbwyntio arno yn y dyfodol.

Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur y credai y dylai'r mesurau hynny fod wedi bod yn eu lle oherwydd nad oedd cyllideb yr adran wedi cael ei rheoli am y 5 mlynedd ddiwethaf.

**Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Aelwyd New Vale/Roseheyworth a glanhau Canol Trefi/Strydoedd:** Dywedodd Aelod arall, er un o'r setliadau ariannol gorau a gafwyd gan Lywodraeth Cymru mewn nifer sylweddol o flynyddoedd, bod pwysau cost anffafriol mawr yn parhau am y maes gwasanaeth hwn. Gofynnodd i'r Aelod Gweithrediaeth os oedd wedi ystyried fod gweithredu dwy ganolfan ailgylchu gwastraff h.y. New Vale a Roseheyworth wedi cyfrannu at y pwysau cost yma os oedd yn anghynaliadwy i gadw'r ddau safle yn y dyfodol. Yn ychwanegol, oherwydd y penderfyniad dadleuol a wnaed yr wythnos flaenorol i ddod â gweithrediadau Silent Valley yn ôl yn fewnol, os oedd hyn yn gam tuag at gau safle New Vale a gofynnodd i'r Aelod Gweithrediaeth ac Arweinydd y Cyngor i roi addewid y byddai'r ddwy ganolfan ailgylchu yn parhau i weithredu.

Cadarnhaodd yr Aelod Gweithrediaeth mai penderfyniad y Cyngor oedd dod â gwasanaethau Silent Valley yn ôl yn fewnol ac nad oedd hyn yn gam tuag at gau New Vale. Cytunodd fod angen dwy

ganolfan ailgylchu gan fod preswylwyr wedi dweud faint maent yn gwerthfawrogi dewis dwy ganolfan ailgylchu gwastraff aelwydydd yn yr ardal. Dywedodd yr Aelod Gweithrediadaeth y byddai'r ddwy ganolfan ailgylchu yn parhau i weithredu. Cytunodd Arweinydd y Cyngor gyda sylwadau yr Aelod Gweithrediaeth.

Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur ei bod yn dda derbyn y sicrwydd am safle New Vale ond beth yw'r cynllun am sut y caiff y ddau safle ailgylchu gwastraff cartrefi eu hariannu o hyn ymlaen.

Mynegodd Aelod arall ei bryder am sefyllfa cyllideb Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a dywedodd y cafodd tîm glanhau newydd ei greu yn 2017 i fynd i'r afael â phroblemau mewn canol trefi a bod hyn wedi gweithio'n dda am gyfnod. Fodd bynnag, mae glanweithdra canol trefi yn awr wedi gwaethygu a nifer digwyddiadau tipio anghyfreithlon hefyd wedi cynyddu. Holodd os oedd y blaenoriaethau yn gywir a beth oedd y cynllun i adennill y colledion hyn yn y dyfodol.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Adnoddau y cafodd cyfran sylweddol o'r pwysau cost h.y. £400,000 ar gyfer y portffolio hwn ei gynnwys ar gyfer darbodusrwydd ar sail y penderfyniad arfaethedig i symud Cwm Tawel yn ôl yn fewnol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi fod pwysau cost ar gyfer y maes hwnnw yn bodoli beth bynnag oedd penderfyniad y Cyngor oherwydd fod cost gweithredu Silent Valley yn fwy na'r swm yr oedd y Cyngor wedi ei dalu i'r cwmni yn flaenorol. Mae mwyafrif helaeth gweddill y pwysau cost yn ymwneud â natur amrywiol y ffrwd incwm ailgylchu a gynhyrchir gan y gwasanaeth. Mae'r Cyngor yn casglu ac yn gwaredu â swm sylweddol o ailgylchu ac mae hyn yn rhoi incwm sylweddol pan gaiff ei werthu. Fodd bynnag, gallai prisiau ailgylchu amrywio'n eithaf sylweddol ac mae'r prisiau wedi gostwng mewn blynyddoedd diweddar. O'r flwyddyn nesaf gobeithir y byddai gwelliant yn y farchnad ac y caiff incwm ychwanegol ei gynhyrchu ond mae'r pwysau cost yn ddiffyg hanesyddol yn y gyllideb.

Dywedodd Aelod fod y ganolfan ailgylchu yn Roseheyworth yn awr yn ailgylchu ac uwchgylchu beiciau ac o fis Ebrill i fis Hydref roedd 6,713 o bobl wedi ymweld â'r safle ac mae'n anochel fod rhai pwysau cost yn gysylltiedig gyda safle newydd sbon, a fyddai'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol iawn yn yr ardal.

Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur, er fod £400,000 wedi ei briodoli i Silent Valley, fod gwariant o £500,000 yn parhau. Pan

soniwyd am ail ganolfan ailgylchu gwastraff aelwydydd, dywedwyd nad oedd unrhyw ddata pendant yn yr adroddiad a dim tystiolaeth i ddangos fod angen ail safle ac yn anffodus, fel canlyniad mae lefelau glanweithdra strydoedd a threfi yn gwaethygu.

Mewn ymateb i gwestiwn yn nhermau os oedd hyn yn gyllideb realistig ar gyfer y portffolio, dywedodd yr Aelod Gweithrediaeth fod angen dod â phwysau cost yn ôl yn wastad a derbyniodd ei fod yn realistig gyda'r gwelliant yn y gyllideb. Yng nghyswllt glanweithdra a thipio anghyfreithlon cafodd yr ystadegau hyn eu hadrodd drwy'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac roedd y ddau wedi gwella ond nid oedd hyn i ddweud nad oedd mwy o waith i'w wneud yn y dyfodol.

Dywedodd Aelod y gwnaed addewidion yn 2017 y byddai glanweithdra strydoedd yn gwella ond roedd masnachwyr yn dweud nad oeddent erioed wedi gweld y strydoedd mor frwnt. Mae'r masnachwyr hyn yn ceisio cystadlu yn erbyn trefi eraill ac yn colli masnach oherwydd diffyg glanweithdra y strydoedd. Cyfeiriodd yr Aelod at y cyllid a gafodd ei osod o'r neilltu i greu mwy o griwiau glanhau strydoedd yn ychydig flynyddoedd cyntaf y weinyddiaeth a gofynnodd os cafodd y cafodd nifer y criwiau ei ostwng.

Dechreuodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol drwy ddweud y defnyddir mesur graddio LEAMS ar draws pob cyngor a bod hynny yn dangos fod y graddiad glanweithdra yn gwella. Nodwyd y cafodd patrwm gwaith gwahanol ei ddefnyddio yng nghanol trefi yn ystod y pandemig ond hysbyswyd Aelodau na chafodd nifer y criwiau ei ostwng ond y gall fod gostyngiad wedi bod yn nifer yr aelodau criw ym mhob tîm. Cafodd Strategaeth Sbwriel ei mabwysiadu yn ddiweddar hefyd ac mae gwaith yn mynd rhagddo i weithredu dull ehangach ar gyfer glanhau strydoedd sy'n cynnwys addysg o fewn y gymuned, sicrhau casglwyr sbwriel gwirfoddol yn ogystal â gwaith y criwiau.

Dywedodd Arweinydd y Grŵp Annibynnol Lleiafrifol, er nad oedd nifer y cerbydau wedi gostwng, nad oeddent wedi eu staffio'n llawn a theimlai fod y datganiad yn gamarweiniol.

Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol na chredai fod ei ddatganiad yn gamarweiniol oherwydd ei fod wedi dweud er bod yr un nifer o gerbydau y gallai nifer y criw fod wedi gostwng, bod yr un gwasanaeth effeithiol yn

cael ei gyflenwi ag yn flaenorol. Bu rhai newidiadau mewn meysydd gwasanaeth neilltuol ond dywedodd eu bod yn profi'n effeithlon ac effeithiol.

Gofynnodd Aelod os y sefydlwyd rhaglen waith i gynnal glanhau trylwyr ar ganol trefi. Mae angen codi ysbryd pobl yn y cyfnod heriol hwn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol nad oedd y trefniadau glanhau wedi newid yn ystod cyfnod y pandemig a dywedodd y byddai'n edrych ar y mater ac yn adrodd yn ôl i'r Aelod.

Mewn ymateb i gwestiwn, rhoddodd Arweinydd y Cyngor sicrwydd nad oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i symud i gasglu sbwriel bob 4 wythnos – fodd bynnag, gall gweinyddiaethau y dyfodol gymryd safbwynt gwahanol a gellid cael cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru. Adleisiodd yr Aelod Gweithrediaeth sylwadau'r Arweinydd.

Gofynnodd Aelod am addewid fod Safleoedd Ailgylchu Gwastraff Cartrrefi New Vale a Roseheyworth ill dwy yn ddiogel ac na fyddai unrhyw golledion swyddi fel canlyniad i fynd â Silent Valley yn ôl yn fewnol – yn neilltuol cyfeiriwyd at staff asiantaeth a gaiff eu cyflogi ar y safle ar hyn o bryd.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cenedlaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol bod yr achos busnes yn tybio y byddai nifer y staff sy'n gweithio yn Silent Valley ar hyn o bryd yn trosglwyddo i'r gwasanaeth rheng flaen ac mae hyn yn tybio y byddai'r cyngor angen yr un lefel o adnoddau staff a ddefnyddir i gyflwyno gwasanaethau Silent Valley yn nhermau cyflenwi rheng flaen. Fodd bynnag, ni fedrai roi sylwadau ar nifer y staff asiantaeth ac adnoddau Silent Valley ar hyn o bryd.

Dywedodd yr Aelod nad yw staff asiantaeth yn dod o fewn Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE) a gofynnodd am addewid na fyddai unrhyw golledion swydd.

Ategodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol o safbwynt gweithredu'r gwasanaeth y caiff y nifer o staff sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaeth a throsglwyddo i wasanaeth rheng-flaen y Cyngor ei amlinellu yn y model busnes

ac na fedrai ddweud pa adnoddau y mae Silent Valley yn eu rhoi i'r gwasanaethau ar hyn o bryd.

**CCTV:** Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur iddo gael ei hysbysu y caiff gwasanaeth neu welliannau gwasanaeth CCTV newydd eu gweithredu ym Mlaenau Gwent a gofynnodd os y gallai swyddog egluro beth yw'r sefyllfa bresennol.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid fod y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol wedi ystyried adroddiad yn ymwneud â gwelliannau arfaethedig i'r swyddogaeth CCTV ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r adroddiad hwn, a gafodd ei eithrio, yn rhoi manylion y gwaith a fyddai'n cael ei wneud mewn cysylltiad gyda phartner cyflenwi. Symudir ymlaen gyda gwelliannau arfaethedig (yn cynnwys agweddau technegol a gwella cydnerthedd a chanfod gwallau) a byddai'r gwaith hwn yn dod i ffrwyth yn ystod haf 2022. Yn y cyfamser, byddai'r model gweithredu presennol yn parhau ac mae'r heddlu yn cael tystiolaeth, pan ofynnir am hynny. Yn ychwanegol, mae'r materion allweddol a ddynodwyd gan wahanol randdeiliaid ac a ddadlennwyd gan yr adolygiad yn canolbwyntio ar yr elfen ddigidol lle gellid rhannu tystiolaeth ddigidol ac mae'r gwaith hwn eisoes wedi dechrau ac yn cael ei symud ymlaen gan y Pennaeth Gwasanaeth.

Cyfeiriodd Arweinydd y Grŵp Llafur at ran neilltuol o Dredegar a arferai fod â chamera CCTV a lle mae problemau neilltuol a gofynnodd os caiff camerâu newydd eu gosod fel rhan o'r gwaith hwn.

Dywedodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid nad oedd seilwaith tebyg i osod camerâu newydd yn ffurfio rhan o'r adroddiad. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y seilwaith presennol (nid newid lleoliad camerâu) ac mae angen ei wella yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd. Fodd bynnag, fel rhan o drefniadau gweithredu a pholisi CCTV, cynhelir adolygiad blynyddol yn nhermau pa gamerâu sydd angen eu lleoli ac fel rhan o'r broses honno byddir yn gofyn am farn Aelodau.

Cyfeiriodd Aelod at drafodaethau blaenorol a gynhaliwyd am gyllid yn nhermau'r cwmwl digidol gyda Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ac am fanylion pellach y cynigion CCTV yn cynnwys os caiff y system ei monitro 24/7. Yn ychwanegol, gofynnodd os y cynhelir ymgynghoriad gydag Aelodau oherwydd nad oedd pob

Aelod wedi cael cyfle i drafod y mater yn y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol.

Dywedodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid y byddai'n cylchredeg yr adroddiad eithriedig i Aelodau sy'n cynnwys manylion y cynigion a dywedodd y cafodd y gwelliannau arfaethedig a'r problemau allweddol a ddynodwyd ei seilio ar yr adborth a gafwyd gan Aelodau a phartneriaid dros gyfnod ac mae'r elfen ddigidol yn ffurfio rhan o'r gwaith hwn ar gyfer y dyfodol. I ymateb i'r adborth hwn mae angen gwaith gyda phartner darparu gwasanaeth i sicrhau'r gwelliannau hyn a sicrhau capasiti cadarn ac ychwanegol.

Mewn ymateb i gwestiwn am ddigonolrwydd y trefniadau monitro, rhoddodd y Prif Swyddog sicrwydd y cafodd pwyntiau Aelodau eu hystyried fel rhan o ddatblygu'r model gwasanaeth a bod hyn wedi cynnwys lefelau staffio priodol. Un peth sy'n cael ei ystyried yw lefelau staffio i siicrhau y caiff y system ei monitro'n effeithlon.

Mynegodd Aelod ei bryder na fu digon o gynnydd yn nhermau darpariaeth CCTV a bod problemau neilltuol gyda chamerâu yng nghanol trefi nad oedd yn casglu digwyddiadau trefn gyhoeddus yn fyw yn golygu fod yn rhaid i'r heddlu ddibynnu ar luniau ddiwrnod yn ddiweddarach. Cytunodd Aelodau arall gyda'r sylwadau a wnaed a dywedodd nad oedd y cyhoedd yn teimlo'n ddiogel yn eu hardaloedd a bod angen camerâu a monitro ychwanegol.. Gan fod llawer o arian mewn cronfeydd cadw, dylid defnyddio'r gronfa ar gyfer y diben hwn a gofynnodd i'r mater gael ei ymchwilio ac, oherwydd fod y mater hwn yn effeithio ar bob Aelod, gofynnodd iddo gael ei adrodd yn ôl i'r Cyngor llawn ei ystyried a'i drafod.

Dywedodd Aelod arall y dywedwyd wrtho fod camerâu teledu CCTV yn cael eu gosod yn Arcêd Abertyleri oherwydd problemau cyfredol gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofynnodd os gellid cadarnhau hyn.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid fod yr adroddiad a gaiff ei gylchredeg i Aelodau yn rhoi manylion seilwaith presennol canol y dref ac mae lleoliad a sefyllfa camerâu yn ddarn o waith ar wahân a gaiff ei lywio gan Aelodau. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Prif Swyddog fod camerâu yn cael eu gosod yn Arcêd Abertyleri ond bod hyn yn ddarn ar wahân o waith (i'r gwaith a nodir yn adroddiad) sydd ar y gweill.

**Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol ac Wedi eu Clustnodi:** Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Prif Swyddog Adnoddau fod lefel bresennol cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn £10.6m fel ar 31 Mawrth 2021, fodd bynnag rhagwelir y byddai hyn yn cynyddu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ond ni fedrai roi union fanylion y lefel a fyddai ar gael ond disgwylid y byddai'r ffigur yn fwy na £11m. Yn ychwanegol, er y byddai mân ostyngiadau yn y cronfeydd a glustnodwyd oherwydd y cafodd lefelau bach o gyllid eu neilltuo ar gyfer dibenion penodol, rhagwelir hefyd mai dim ond erbyn diwedd y flwyddyn ariannol y byddai'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn cynyddu. Nodwyd y cafodd cyfanswm o tua £12m ei drosglwyddo i'r cronfeydd wrth gefn y flwyddyn flaenorol.

Dywedodd Aelod, oherwydd lefel y cronfeydd wrth gefn a'r swm a drosglwyddwyd i'r cronfeydd wrth gefn y flwyddyn flaenorol, y gallai cyfle fod wedi bod yr adeg honno i roi cynnydd o lai na 3.3%, fodd bynnag roedd yn cymeradwyo'r cynnydd o 0% a gynigir ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod.

Yn dilyn trafodaeth faith, cynigiodd Arweinydd y Cyngor gymeradwyo'r dilynol:

**Paragraff 3.1.1 -** Cytuno ar gyllideb refeniw 2022/23 fel y'i dangosir yn nhabl 2 ym mharagraff 5.1.13 yn amodol ar y dilynol

**Paragraff 3.1.2 –** Nodi'r deilliannau o fewn Setliad Grant Cymorth Refeniw darpariaethol CBSBG a'r newid pellach posibl yn y Grant Cymorth Refeniw terfynol.

**Paragraff 3.1.3 –** Nodi'r deilliannau o fewn setliad darpariaethol Grant Cymorth Refeniw CBSBG a'i effaith ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol.

**Paragraff 3.1.4 –** Cytuno ar y pwysau cost a ddiweddarwyd a'r eitemau twf (cyfanswm o £4m) a ddynodwyd yn Atodiad 2 (paragraffau 5.1.9 – 5.1.12) i'w cynnwys yng nghyllideb y Cyngor.

**Paragraff 3.1.5 –** Cytuno  pasbortio'r grantiau sy'n trosglwyddo i'r setliad o £265,000 i'r gwasanaethau perthnasol.

**Paragraff 3.1.6 –** Cytuno ar gynnydd o £3.91m sy'n gyfwerth â chynnydd o 8.4% i'r Gyllideb Ysgolion Unigol.

| | | |
|---|---|---|
| | **Paragraff 3.1.7 –** Bod unrhyw beth y mae cynigion Pontio'r Bwlch yn ei gyflawni sy'n fwy na'r gofyniad cyllideb yn y flwyddyn i gyllideb wrth gefn i gefnogi cynnydd cyflog yn ystod 2022/23 yn ychwanegol at yr hyn a ddarperir yn Strategaeth Ariannol Tymor Canol o £0.95m. **Ni** chafodd y £1.5m ei drosglwyddo i'r Gronfa wrth Gefn Cydnerthedd Ariannol (paragraff 5.1.32 a 5.1.34) ond cafodd y ffigur hwn ei ddefnyddio wrth osod elfen Blaenau Gwent o dreth gyngor 2022/23.<br><br>**Paragraff 3.1.8 – Na** chytunir ar gynnydd treth gyngor o 4% ar gyfer 2022/23 (paragraff 5.1.3) yn unol â thybiaethau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol a drwy ddefnyddio balans sydd ar ôl defnyddio gweddill llwyddiannau Pontio'r Bwlch yn cynnig **cynnydd o 0% ar y dreth gyngor a thrwy wneud hynny rewi lefelau treth gyngor ar gyfer 2022/23.**<br><br>Eiliwyd y cynigion uchod.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur ar ran y ddau grŵp gwrthbleidiol ei fod yn cefnogi'r mesurau hyn.<br><br>Mewn pleidlais unfrydol PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1 sef:<br><br>**Paragraff 3.1.1 –** Cytuno ar y gyllideb refeniw 2022/23 a ddangosir yn nhabl 2 ym mharagraff 5.1.13.<br><br>**Paragraff 3.1.2 –** Nodi'r deilliannau o fewn Setliad Darpariaethol Grant Cymorth Refeniw (CBSBG) a newid pellach posibl yn y Grant Cymorth Refeniw terfynol.<br><br>**Paragraff 3.1.3 –** Nodi'r deilliannau o fewn setliad darpariaethol Grant Cymorth Refeniw CBSBG a'i effaith ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol.<br><br>**Paragraff 3.1.4 –** Cytuno ar y pwysau cost a ddiweddarwyd a'r eitemau twf (cyfanswm o £4m) a ddynodir yn Atodiad 2 (paragraffau 5.1.9 – 5.1.12) i'w cynnwys yng nghyllideb y Cyngor.<br><br>**Paragraff 3.1.5 –** Cytuno ar basbortio'r grantiau yn trosglwyddo i'r setliad o £265,000 i'r gwasanaethau perthnasol.<br><br>**Paragraffau 3.1.6 –** Cytuno ar gynnydd o £3.91m sy'n gyfartal â chynnydd o 8.4% yn y Gyllideb Ysgolion Unigol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Paragraffau 3.1.7 –** Bod unrhyw gyflawniad o gynigion Pontio'r Bwlch oedd yn fwy na'r gofyniad cyllideb yn y flwyddyn yn cael ei drosglwyddo i gyllideb wrth gefn i gefnogi cynnydd cyflog yn ystod 2022/23 yn ychwanegol at yr hyn a ddarparwyd yn y Strategaeth Ariannol Tymor canol o £0.95m. **Nad** oedd y £1.5m yn cael ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn Cydnerthedd Ariannol (paragraff 5.1.32 a 5.1.34) ond defnyddio'r ffigur hwn wrth osod elfen Blaenau Gwent o dreth gyngor 2022/23.<br><br>**Paragraff 3.1.8 – Nad** oedd y cynnydd dreth gyngor o 4% ar gyfer 2022/23 (paragraff 5.1.3) yn unol â'r tybiaethau Strategaeth Ariannol Tymor Canol yn cael ei gytuno a drwy ddefnyddio balans gweddilliol llwyddiannau Pontio'r Bwlch **cytuno ar gynnydd o 0% yn y Dreth Gyngor ac wrth wneud hynny yn rhewi lefelau treth gyngor ar gyfer 2022/23.** | |
| **No. 7** | **<u>EITEM EITHRIEDIG</u>**<br><br>Derbyn ac ystyried yr adroddiad dilynol sydd ym marn y swyddog priodol yn eitem(au) eithriedig gan roi ystyriaeth i'r prawf budd cyhoeddus ac y dylai'r wasg a'r cyhoedd gael eu heithrio o'r cyfarfod (mae'r rheswm dros y penderfyniad am yr eithriad ar gael ar restr a gedwir gan y swyddog priodol). | |
| **No. 8** | **<u>TREFNIADAU INTERIM – SWYDD WAG</u>**<br><br>Datganodd Michelle Morris, Rheolwr Gyfarwyddwr; Lynn Phillips, Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg, Richard Crook, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol. Damien McCann, Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol; Rhian Hayden, Prif Swyddog Adnoddau; Bernadette Elias, Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid ac Andrea Jones, Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol fuddiant yn y cyfarfod tra ystyriwyd fod yr eitem hon o fusnes.<br><br>Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth, fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhaliwyd yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth | |

| | | |
|---|---|---|
| | eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraffau 14 a 15, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol.<br><br>Yn dilyn trafodaeth pan eglurodd bwyntiau pan eglurodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad sy'n cyfeirio at faterion busnes unrhyw berson neilltuol (yn cynnwys yr awdurdod) a gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw ymgynghoriadau neu drafodaethau, neu ymgynghoriadau neu drafodaethau sydd dan ystyriaeth, mewn cysylltiad ag unrhyw faterion cysylltiadau llafur sy'n codi rhwng yr Awdurdod a gweithwyr cyflogedig neu ddeiliaid swyddi dan yr Awdurdod a chytuno ar yr opsiynau dilynol.<br><br>**Opsiwn 1 – Ailddynodi swydd y Rheolwr Gyfarwyddwr**<br><br>Ailddynodi swydd y Rheolwr Gyfarwyddwr i fod yn Brif Weithredwr i gydymffurfio gyda gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.<br><br>**Opsiwn 1 – Trefniant Interim Swydd Rheolwr Gyfarwyddwr – Trefniant Manwl**<br>• Gofyn am ddatganiadau diddordeb gan y Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Cymunedol a'r Prif Swyddog Adnoddau a Masnachol sy'n ffurfio rhan o Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor. Mae'r swyddogion hyn yn brofiadol ar lefel uwch arweinydd ym Mlaenau Gwent ac mae ganddynt brofiad o ddirprwyo/llanw dros feysydd gwaith/cynrychiolaeth ar gyfer y Rheolwr Gyfarwyddwr gyfredol.<br><br>• Cyfweliad ffurfiol gyda Phwyllgor Apwyntiadau'r Cyngor (Mawrth 2022) i benodi ar sail interim.<br><br>• Penodi ar y cyflog presennol ar gyfer swydd y Rheolwr Gyfarwyddwr.<br><br>Byddai'r opsiwn hwn yn cefnogi cyfnod byr o bontio/trosglwyddo gyda deiliad presennol y swydd a byddai'r ymgeisydd posibl | |

| | | |
|---|---|---|
| | eisoes wedi sefydlu cysylltiadau o fewn y sefydliad.<br><br>**Opsiwn 1 – Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol, Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022**<br><br>• Y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol sydd â phrofiad blaenorol i weithredu fel Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai.<br><br>Y Prif Swyddog Adnoddau i barhau yn rôl y Dirprwy Swyddog Etholiadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol. | |